CANLLAWIAU CRONFA WELLA STADIA
2026

Disgwylir i ymgeiswyr ddarllen y canllawiau cyn gwneud cais.

CYFLWYNIAD A DIBEN

Mae'r ddogfen hon yn rhoi manylion polisïau ac egwyddorion cyllido Cronfa Wella Stadia ("y Gronfa") Sefydliad Pêl-droed Cymru ("y Sefydliad"). Cyfeiriwyd at y gronfa hon yn flaenorol fel 'Cronfa Gwella Meysydd Cymru' neu 'WGI' yn fyr; cymerodd Sefydliad Pêl-droed Cymru gyfrifoldeb dros reoli'r rhaglen gyllido hon ym mis Gorffennaf 2025.

Bydd y Gronfa'n cefnogi Clybiau sydd wedi'u hymgysylltu â Chymdeithas Bêl-droed Cymru drwy:

- Gwella seilwaith, i wneud stadia'n fwy croesawgar, hygyrch a chynhwysol;
- Gwella'r Profiadau ar Ddiwrnod Gêm, gan alluogi mwy o wylwyr a gwella amgylcheddau chwarae;
- Rhoi Meini Prawf Trwydded y Gynghrair ar waith, gan alluogi Clybiau i wneud cynnydd;
- Gwella Amgylcheddau ar gyfer Swyddogion Gemau, gan gefnogi datblygiad dyfarnu.

Bydd y Gronfa'n ystyried Gofynion perthnasol Trwydded y Gynghrair, yn enwedig meini prawf seilwaith 'A' a 'B' pob haen, er mwyn buddsoddi mewn Clybiau i'w galluogi i gymryd rhan yn y Cymru Premier, y Cymru South, y Cymru North, yr Ardal Leagues, yr Adran Premier, yr Adran North a/neu'r Adran South.

Cefnogir y Gronfa Gwella Stadia gan gyllid a dderbynnir gan Uwch Gynghrair Lloegr.

LLYWODRAETHU AC ATEBOLRWYDD

Sefydliad Pêl-droed Cymru fydd yn rheoli'r Gronfa'n fel rhaglen cyllid grant, ar ôl i gwmni nid-er-elw Cronfa Meysydd Cymru gael ei ddiddymu yn 2025.

Sefydliad Pêl-droed Cymru fydd yn arwain ar holl gyfrifoldebau rheoli'r rhaglen, gyda chymorth gan staff Cymdeithas Bêl-droed Cymru i nodi a chytuno ar osod polisi strategol a rhoi newidiadau angenrheidiol ar waith yn seiliedig ar astudiaethau achos o bryd i'w gilydd.

Bydd penderfyniadau grant yn cael eu cadarnhau gan y Panel Gwneud Penderfyniadau, sy'n banel o wyth (8) unigolyn sy'n cynnwys y canlynol: Ysgrifenyddiaeth Rhaglen Sefydliad Pêl-droed Cymru; Aelod o Fwrdd Sefydliad Pêl-droed Cymru fel Cadeirydd; dim mwy na dau (2) Aelod Annibynnol; dim mwy na thri (3) Aelod o Fwrdd a Chyngor Cymdeithas Bêl-droed Cymru; yn ogystal ag aelodau o Uwch Gynghrair Lloegr, Chwaraeon Cymru a Llywodraeth Cymru. Bydd Rheolwr Rhaglen Sefydliad Pêl-droed Cymru'n cynnig argymhellion i'r panel hwn er mwyn rhoi sail glir i'r panel wneud penderfyniadau.

Rheolir unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau yn unol â phroses arferol Sefydliad Pêl-droed Cymru.

Bydd y Sefydliad bob amser yn glynu wrth weithdrefnau ac yn cysoni'r broses o wneud penderfyniadau â pholisïau sefydliadol safonol.

CWMPAS Y CYLLID A CHYMHWYSEDD

Yr ymgeiswyr cymwys yw unrhyw Glybiau Pêl-droed sy'n cymryd rhan yn unrhyw un o'r cynghreiriau canlynol ar hyn o bryd:

- Cymru Premier
- Cymru North a South
- Ardal Leagues
- Uwchgynghreiriau'r Cymdeithasau Ardal (Haen 4 y Dynion)
- Adran Premier

- Adran North a South
- Uwchgynghreiriau'r Cymdeithasau Ardal (Haen 3 y Menywod)

Rhaid i unrhyw ymgeisydd fod ag o leiaf deng (10) mlynedd a mwy o ddiogelwch deiliadaeth dros y cyfleuster y mae'r cynnig i wneud gwaith uwchraddio seilwaith yn gysylltiedig ag o. Dylid cyfleu unrhyw faterion sy'n ymwneud â diogelwch deiliadaeth yn glir i'r Sefydliad cyn gynted â phosibl. Gellir cyfeirio unrhyw ymholiadau ynghylch cymhwysedd trefniadau diogelwch deiliadaeth presennol unrhyw Glybiau at y Sefydliad hefyd.

Mae Ceisiadau Cymwys yn geisiadau am gyllid cyfalaf tuag at uwchraddio seilwaith sy'n amlwg yn bodloni blaenoriaethau strategol y Sefydliad fel y nodir isod:

- Gwella seilwaith, i wneud stadia'n fwy croesawgar, hygyrch a chynhwysol;
- Gwella'r Profiadau ar Ddiwrnod Gêm, gan alluogi mwy o wylwyr a gwella amgylcheddau chwarae;
- Rhoi Meini Prawf Trwydded y Gynghrair ar waith, gan alluogi Clybiau i wneud cynnydd;
- Gwella Amgylcheddau ar gyfer Swyddogion Gemau, gan gefnogi datblygiad dyfarnu.

Mae ceisiadau sy'n cynnwys unrhyw rai o'r mathau canlynol o seilwaith yn **gymwys:**

- Pob Eisteddle, gan ffafrio'r rheini sy'n cynnwys caeadau diogelwch a chloeon neu deledu cylch cyfyng;
- Gosod llifoleuadau LED newydd neu uwchraddio i LED i fodloni o leiaf 500 lwcs;
- Mannau newydd, neu wella mannau sy'n cael eu defnyddio gan Swyddogion Gemau (gan gynnwys yn ystod gemau);
- Gwella neu gynyddu nifer y cawodydd sy'n cael eu defnyddio gan Chwaraewyr neu Swyddogion Gemau;
- Gantris Teledu (7m x 2.2m);
- Ffensys 1.1m i wylwyr (anogir arwynebedd o 3m ar gyfer dŵr ffo);
- Arwyneb caled concrit (anogir arwynebedd o 3m ar gyfer dŵr ffo);
- Dau gysgodfa (dugout) sy'n na 13 sedd yr un;
- Gwell toiledau neu doiledau newydd i wylwyr, gan gynnwys toiledau hygyrch;
- Mannau gwylio i bobl anabl;
- Ystafell Feddygol, a/neu mannau Aml-bwrpas ychwanegol (i'w defnyddio ar gyfer Profion Cyffuriau ac ati);
- Ymestyn caeau i fodloni'r dimensiynau lleiaf sef 98x62m - lle byddai arwynebedd o dri metr ar gael ar gyfer dŵr ffo (gan ffafrio uwchraddio i 100x64m, sef yr isafswm a nodir yn Rheoliadau Trwyddedu Haen 1);
- Systemau Sain;
- Ardaloedd bwyd a diod;
- Gatiau troi a/neu uwchraddio seilwaith mynediad ac ymadael;
- Estyniadau hyd at 99m^2 i'r maes parcio, gydag ardal bwrpasol wedi'i marcio ar gyfer

Fan Darllediad Allanol Darlledwr. Mae ceisiadau sy'n cynnwys unrhyw rai o'r eitemau canlynol

o seilwaith yn **anghymwys:**

- Llifoleuadau LED newydd neu wedi'u huwchraddio **nad ydynt yn bodloni 500 Lwcs** (h.y. byddai llifoleuadau 250 LUX neu lifoleuadau Halide yn anghymwys);
- Ffens o amgylch y cae nad yw'n barhaol, neu sydd wedi'i gwneud o goncrit neu frics;
- Ardaloedd Cynhesu;
- Uwchraddiadau 100m^2 neu fwy i feysydd parcio;
- Estyniadau i feysydd lle nad oes arwynebedd o dri metr ar gael ar gyfer dŵr ffo;
- Cysgodfeydd ochr cae llai na 13 sedd i'r timau.

Mae'r prosiectau canlynol hefyd yn **anghymwys**:

- Disodli cyfleusterau presennol am rai tebyg (yn hytrach nag uwchraddio);

- Cyfarpar dros dro, cyfarpar personol, neu eitemau bach sydd ond yn debygol o bara am gyfnod cyfyngedig, fel bibiau, peli neu gonau;
- Byrddau, cadeiriau neu eitemau tebyg fel ceisiadau am eitemau unigol o gyfarpar;
- Prosiectau sydd eisoes wedi dechrau, neu'r rhai sy'n dechrau cyn i'r Sefydliad roi cymeradwyaeth ffurfiol;
- Prynu tir neu gyfleusterau yn fentrus;
- Prosiectau refeniw.

Oherwydd y posibilrwydd o ffrydiau cyllid eraill (i'w gadarnhau), ni fydd Cronfa Wella Stadia bellach yn derbyn cynigion ar gyfer prosiectau sy'n effeithio ar gynaliadwyedd amgylcheddol yn unig fel yr oedd yn 2025/26.

TERFYNAU CYLLID GRANT

£50,000.00 yw'r grant mwyaf sydd ar gael i bob ymgeisydd tuag at brosiectau cymwys. Mae'r un cyfraniad mwyaf yn berthnasol i bob ymgeisydd sy'n gymwys i wneud cais am y rhaglen hon.

Y cyfraniad lleiaf ("Cyfraniad Partneriaeth") y gall ymgeisydd ei wneud tuag at brosiect yw 20%. Mae'r un cyfraniad lleiaf yn berthnasol i bob ymgeisydd sy'n gymwys i wneud cais am y rhaglen hon.

Gellir sicrhau cyfraniadau partneriaeth o unrhyw ffynhonnell arall, fel nawdd, cyllid grant arall, Cronfeydd y Clwb, rhoddion, ac ati. Rhaid i gyfraniadau partneriaeth fod â gwerthoedd arian parod a rhaid cael tystiolaeth ohonynt cyn dyfarnu Caniatâd ffurfiol i Fwrw Ymlaen â'r prosiect.

Atgoffir ymgeiswyr bod y gyllideb ar gyfer y rhaglen yn gyfyngedig. Dylai ymgeiswyr bob amser geisio sicrhau cymaint o gyllid amgen â phosibl - po fwyaf o gyllid partneriaeth sy'n cael ei sicrhau, y mwyaf o brosiectau y gall y Gronfa eu cefnogi.

Mae Grantiau Sefydliad Pêl-droed Cymru bob amser yn amodol ar angen ariannol.

Rhoddir blaenoriaeth drwy'r rhaglen gyllido hon i glybiau sydd wedi sicrhau dyrchafiad.

Y BROSES YMGEISIO

Rhaid i ymgeiswyr lenwi 'Ffurflen Gais Cronfa Gwella Stadia Sefydliad Pêl-droed Cymru' yn llawn, a'i chyflwyno i Sefydliad drwy e-bost i applications@cff.cymru erbyn y dyddiad cau perthnasol, isod:

Haen 1 a 2 y Dynion Cymru Leagues **(y rheini sydd wedi gwneud cais am Drwydded Haen 1)**	Nos Wener 8 Ionawr 2027 20:00
Haen 1 a 2 y Menywod Adran Leagues **(y rheini sydd wedi gwneud cais am Drwydded Haen 1)**	Nos Wener 8 Ionawr 2027 20:00
Haenau 1, 2, 3 a 4 y Dynion Cymru Leagues, Ardal Leagues, Uwchgynghrairau'r Cymdeithasau Ardal **(y rheini sydd heb wneud cais am Drwydded Haen 1)**	Nos Wener 30 Ebrill 2027 20:00
Haenau 1, 2 a 3 y Menywod Adran Leagues ac Uwchgynghrairau'r Cymdeithasau Ardal **(y rheini sydd heb wneud cais am Drwydded Haen 1)**	Nos Wener 30 Ebrill 2027 20:00

Mae angen yr wybodaeth isod fel rhan o'r broses ymgeisio.

Yn orfodol wrth wneud cais:

Sylwch, bydd methu â darparu'r dogfennau gorfodol isod yn arwain at wrthod yn awtomatig.

- O leiaf dau (2) ddyfynbris cystadleuol ar gyfer y prosiect;
- Dogfennau diogelwch deiliadaeth, wedi'u llofnodi;
- Prawf o gyfraniad partneriaeth i fodloni'r isafswm o 20%;
- Adroddiad Dyluniad Llifoleuadau (os ydych chi'n gwneud cais am lifoleuadau newydd neu am uwchraddio rhai presennol);

Argymhellir yn gryf wrth wneud cais:

- Cydsyniad y Landlord ar gyfer y prosiect;
- Lle bo'n berthnasol, derbyniad o Gais Cyn Cynllunio neu Gais Cynllunio llawn yr Ymgeisydd, neu Ganiatâd Cynllunio llawn;
    - *Byddai cadarnhad ysgrifenedig gan yr awdurdodau perthnasol nad oes angen Caniatâd Cynllunio ar gyfer y prosiect yn ddigon*
- Strategaeth Profiadau ar Ddiwrnod Gêm gan gynnwys tystiolaeth o ymgynghori â rhanddeiliaid;
- Ffotograffiaeth o'r seilwaith presennol – yn enwedig lle gofynnir am uwchraddio;
- Cynlluniau manwl ar gyfer y prosiect.

Argymhellir y dylid ymgynghori â swyddog Datblygu Clybiau perthnasol y Clwb gyda Chymdeithas Bêl-droed Cymru cyn cyflwyno'r cais, gan y bydd yr unigolion hyn yn gallu rhoi cyngor lleol ar sut y gellir ychwanegu gwerth ychwanegol at y cais.

Os nad yw ymgeisydd yn siŵr a oes angen Caniatâd Cynllunio arno, **yr arfer gorau bob amser yw ymgynghori â'r aelod perthnasol o staff o adran gynllunio eu Hawdurdod Lleol**. Mae'n bosibl y bydd angen caniatâd cynllunio i ychwanegu eisteddleoedd newydd, ffensys diogelwch, cynyddu lefelau LUX llifoleuadau, llifoleuadau newydd, adeiladau newydd neu estyniadau. Sylwch, gofynnir i ymgeiswyr sy'n datgan nad oes angen caniatâd cynllunio ddangos tystiolaeth o'r mater hwn. Os profir bod hyn yn ddiweddarach yn hawliad ffug, ceidw Sefydliad Pêl-droed Cymru yr hawl i dynnu unrhyw gynnig a wnaed yn ôl ar y sail gychwynnol.

Y BROSES O WNEUD PENDERFYNIADAU

Bydd penderfyniadau grant yn cael eu cadarnhau gan y Panel Gwneud Penderfyniadau, sy'n banel o wyth (8) unigolyn sy'n cynnwys y canlynol: Ysgrifenyddiaeth Rhaglen Sefydliad Pêl-droed Cymru; Aelod o Fwrdd Sefydliad Pêl-droed Cymru fel Cadeirydd; dim mwy na dau (2) Aelod Annibynnol; dim mwy na thri (3) Aelod o Fwrdd a Chyngor Cymdeithas Bêl-droed Cymru; yn ogystal ag aelodau o Uwch Gynghrair Lloegr, Chwaraeon Cymru a Llywodraeth Cymru. Bydd Rheolwr Rhaglen Sefydliad Pêl-droed Cymru'n cynnig argymhellion i'r panel hwn er mwyn rhoi sail glir i'r panel wneud penderfyniadau.

Mae'r sefydliad bob amser yn adolygu ceisiadau gyda chefnogaeth Cymdeithas Bêl-droed Cymru, ac yna'n cael sgoriau ar sail eu gallu i fodloni blaenoriaethau'r rhaglen, ac mae dyrchafiad y Clwb yn ffactor blaenoriaeth. Cyflwynir argymhellion i'r Panel Gwneud Penderfyniadau i'w hadolygu a'u cadarnhau yn unol â'r gyllideb sydd ar gael.

AMODAU GRANT, CANIATÂD I FWRW YMLAEN A HAWLIO ARIAN

Bydd Telerau ac Amodau yn cael eu hanfon ochr yn ochr ag unrhyw gynigion grant.

Rhaid i glybiau ddechrau'r prosiect o fewn chwe (6) mis i'r cynnig grant, oni bai fod Rheolwr Rhaglen Sefydliad Pêl-droed Cymru yn cytuno i roi estyniad. I gael estyniad, rhaid i'r Clwb roi sicrwydd clir o'i amserlenni cyflawni newydd wedi'u hategu gan ddogfennau.

Mae pob cynnig grant yn un amodol nes bydd Sefydliad Pêl-droed Cymru wedi dyfarnu 'Caniatâd i Fwrw Ymlaen'. Bydd y dyfarniad 'Caniatâd i Fwrw Ymlaen' yn seiliedig ar gydymffurfiad y Clwb â'r amodau a gyflwynir drwy'r Llythyr Cynnig Grant a chyflwyno dogfennau pellach yn ôl y gofyn, fel Caniatâd Cynllunio. Nid oes modd dechrau unrhyw waith cyfalaf hyd nes y bydd yr ymgeisydd llwyddiannus wedi cael y caniatâd ffurfiol hwn.

Nid oes modd gwneud unrhyw hawliadau am gyllid, gan gynnwys unrhyw flaendaliadau, nes bydd y Clwb wedi cael y caniatâd ffurfiol hwn.

I hawlio'r arian sydd ar gael i Glwb, rhaid i'r Clwb gyflwyno FFURFLEN CFF2 ar ôl derbyn Caniatâd i Fwrw Ymlaen. Bydd templed FFURFLEN CFF2 yn cael ei anfon i'r Clwb gyda'r Caniatâd i Fwrw Ymlaen. Rhaid cyflwyno'r FFURFLEN CFF2 drwy e-bost i Reolwr Rhaglen Sefydliad Pêl-droed Cymru ochr yn ochr â'r anfonebau perthnasol sy'n cael eu hawlio yn eu herbyn. Y Clwb Ymgeisio sy'n derbyn yr arian grant bob amser, ac nid unrhyw staff unigol.

Dim ond ar gymhareb ariannu'r grant y gall y Clwb hawlio – er enghraifft, os yw'r Grant a ddyfarnwyd yn
£50,000.00 tuag at Gost Prosiect o £100,000.00 (50%), rhaid i unrhyw hawliadau i'r Fforwm fod ar 50% o'r anfoneb a gyflwynir. Gellir cyflwyno mwy nag un hawliad - rhaid i'r hawliad terfynol ar gyfer y prosiect gael ei wneud ar ôl cwblhau'r prosiect. Yn fwy na thebyg, bydd contractwr yn disgwyl cael blaendal cyn dechrau'r prosiect ac yna daliad ar ôl i'r prosiect gael ei gwblhau. Fel bod pawb yn ymwybodol, dylid bob amser rhoi gwybod i'r Sefydliad am amserlenni talu cyn gwneud yr hawliad cyntaf.

Gellir lleihau grant yn gymesur os yw cost y Prosiect ar ôl ei gwblhau yn llai na'r gost ddisgwyliedig a nodir yn y llythyr cynnig grant.

Bydd y Sefydliad yn talu cyn gynted â phosibl ar ôl cael cais derbyniol am grant. Rhaid i'r Clwb

gyflwyno prawf i'r Sefydliad o daliad i'r Contractwr.

CWBLHAU AC AR ÔL CWBLHAU

Gall y Sefydliad ddod i'r safle neu drefnu cyfarfod safle ar unrhyw adeg gyda'r Clwb Ymgeisio llwyddiannus yn ystod cyfnod adeiladu'r prosiect neu ar ôl ei gwblhau. Pwrpas y cyfarfod safle hwn fydd gwirio cynnydd yn erbyn yr hawliadau a gyflwynwyd.

Ar ôl derbyn y cynnig grant, mae'r Clwb Ymgeisio llwyddiannus yn cytuno i brosesau Monitro a Gwerthuso Sefydliad Pêl-droed Cymru - mae hyn yn cynnwys dangos prawf o daliad, cytuno i Bolisi Cyfryngau Cymdeithasol Sefydliad Pêl-droed Cymru a chymryd rhan mewn arolygon neu unrhyw ddulliau casglu data eraill ar ôl cwblhau'r gwaith.

ATODIAD

	Men's Tier 1	Men's Tier 2	Men's Tier 3
'A' Criteria	1,500 capacity 500 seats 2 Turnstiles Obscure-view boundary fence (recommended 2m) PA System 100m x 64m minimum pitch (105 x 68m recommended) 1.1m spectator fencing (with 1.5m minimum run-off, though 3m advised) Warm-up area 13 Seat Dugouts 4th Official position with desk 5 Showers (H&A) 1 Private WC (H&A), new developments 3 20 Spaces for seating (H&A), new developments 25 1 Shower (Ref) 1 Private WC (Ref) 5 spaces for seating plus desk (Ref) Female match officials' space Wi-Fi Emergency Medical Room Doping Control Station 500 Lux Floodlighting 2 bus parking bays (teams and officials) 10 car parking bays (teams and officials) 20 car parking bays (VIPs) Four sides' access for spectator standing or seating Four sides' hardstanding 5% total capacity reservation for away segregation Even distribution of flushing WCs with sinks Disabled WC per 15 wheelchair users Dedicated disability viewing area 50 VIP seats (split 30 H, 20 A) Media room equipped with desks, power and Wi-Fi TV Gantry (multi-camera TV unit with 1 3-seater commentary position) Second TV commentary position near halfway line (3 seats) One covered radio position (3 seats) 20 seat Press Box inc min 5 desks, power and Wi-Fi Broadcaster OB Van Parking Area (hardstanding 100m2 area)	750 Capacity 250 Seats PA System 98m x 62m minimum pitch (105 x 68 recommended) 1.1m spectator fencing (with 1.5m minimum run-off, though 3m advised) Warm-up area 13 Seat Dugouts (minimum 8 on first inspection) 4 Showers (H&A) 1 Private WC (H&A), new developments 3 18 Spaces for seating (H&A), new developments 25 1 Shower (Ref) 1 Private WC (Ref) 3 Spaces for seating (Ref) Female match officials' space Matchday Office with strong phone signal and/or Wi-Fi Defibrillator 1 bus parking bay (teams and officials) 10 car parking bays (teams and officials) 10 car parking bays (VIPs) Hardstanding (concrete, stone or tarmac) – one full length and one full width Even distribution of flushing WCs with sinks 10 VIP seats (5 for visiting team officials) Hospitality area for VIPs Press box, central to the main stand Press box: 10 covered seats – 5 of which equipped with desks	500 capacity 100 Seats PA System 98m x 62m minimum pitch (105 x 68 recommended) 1.1m spectator fencing (with 1.5m minimum run-off, though 3m advised) Warm-up area 13 Seat Dugouts (minimum 8 on first inspection) 10 car parking bays (teams and officials) 10 car parking bays (VIPs) Hardstanding (concrete, stone or tarmac) – one full length and one full width Obscure-view boundary fence (recommended 2m) Drainage system Matchday Office Defibrillator Medical Room 250 Lux Floodlighting Four sides' spectator standing or seating 5% total capacity reservation for away segregation 1 seated WC per 250 males (3 WCs) 1 urinal per 125 males (5 Urinals) 1 seated WC per 125 females (2 WCs) Disability viewing area Disabled WC (per 15 wheelchair users) 10 VIP seats (5 for visiting team officials) Hospitality area for VIPs Press box, central to the main stand Press box: 10 covered seats – 5 of which equipped with desks TV Gantry (3 seats for TV commentary) 1 Covered Radio commentary position (3 seats) Post-match interview area Broadcaster OB Van Parking Area (hardstanding 100m2 area)
'B' Criteria	Control room Segregated post-match congregation area for Players, Officials and Family 1 seated WC per 250 males (5 WCs) 1 urinal per 125 males (10 Urinals) 1 seated WC per 125 females (3 WCs)	2 Turnstiles Obscure-view boundary fence (recommended 2m) Spare goalposts 250 Lux Floodlighting Four sides' access for spectator standing or seating 5% total capacity reservation for away segregation 1 seated WC per 250 males (3 WCs) 1 urinal per 125 males (5 Urinals) 1 seated WC per 125 females (2 WCs) Disability viewing area Disabled WC (per 15 wheelchair users) Press box' inclusion of power supply and Wi-Fi Media Room with Wi-Fi and power supply TV Gantry (3 seats for TV commentary) 1 Covered Radio commentary position (3 seats) Post-match interview area Broadcaster OB Van Parking Area (hardstanding 100m2 area)	

Atodiad.1 *Dyma siart sy'n rhoi manylion seilwaith blaenoriaeth A a B ar gyfer Trwyddedau Cynghrair o Haenau 1-3 (Dynion). Sylwch, efallai fod seilwaith A a B wedi cael ei ddiweddaru ers i'r ddelwedd hon gael ei llwytho i fyny i'r ddogfen hon, felly anogir Clybiau i sicrhau eu bod bob amser wedi darllen y gofynion trwyddedu diweddaraf ar gyfer yr haen berthnasol. Efallai nad yw hon yn rhestr gynhwysfawr - hefyd, nid yw'n cynnwys staff.*

Gwyrdd: Eitem gymwys drwy Gronfa Gwella Stadia Sefydliad Pêl-droed Cymru; Coch: Eitem anghymwys. Mae modd trafod unrhyw eitemau eraill gyda Rheolwr Rhaglen Sefydliad Pêl-droed Cymru.